**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad CA(3)-12-10**

**Dyddiad: 29 Ebrill 2010**
**Amser: 13.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

**CYNNWYS**

---

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 29 Ebrill 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC, Rhodri Morgan AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 ac 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

- CA433 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Gwybodaeth Faethol) (Cymru) (Diwygio) 2010

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Mawrth 2010. Fe'u gosodwyd ar 30 Mawrth 2010. Yn dod i rym ar 20 Ebrill 2010.

- CA435 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2010

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Ebrill 2010. Fe'u gosodwyd ar 12 Ebrill 2010. Yn dod i rym ar 12 Ebrill 2010.

- CA436 - Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Ebrill 2010. Fe'u gosodwyd ar 20 Ebrill 2010. Yn dod i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor fod darn arall o ddeddfwriaeth ar yr un pwnc (CA402 – Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010) wedi ei lofnodi a'i wneud gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Pan y trafodwyd yr offeryn statudol hwn yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2010, roedd y Pwyllgor yn bryderus bod Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn yn datgan bod y Rheoliadau Cymreig i fod i ddod i rym ar 1 Ebrill 2010, yn amodol bod rheoliadau perthnasol yn cael eu gwneud yn San Steffan. Mae'r Rheoliadau bellach wedi'u gwneud.

## Materion eraill

### CA425 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2010

Adroddodd y Pwyllgor am y Rheoliadau hyn o dan Reolau Sefydlog 15.2 ac 15.3(ii) (ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.") ar 25 Mawrth 2010. Nodwyd fod y pwnc hwn wedi bod yn destun adroddiadau blaenorol gan y Pwyllgor a'i ragflaenydd o dan Reolau Sefydlog 15.2 ac 15.3. Er fod y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan gynrychiolwyr o Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru a Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, cytunwyd i wahodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, i roi eglurhad pellach.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Ar ôl sicrhau'r Pwyllgor ei bod yn cymryd y mater o ddwyieithrwydd yng Nghymru o ddifrif a bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ymrwymo i'w bolisi iaith, hysbysodd y Dirprwy Weinidog y Pwyllgor y byddai'n diwygio'r prif reoliadau – "Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007" o fewn y deufis nesaf i ganiatáu defnyddio disgrifiadau Cymraeg. Roedd y Pwyllgor yn hapus â dull gweithredu'r Gweinidog.

## Gohebiaeth y Pwyllgor

### Tystiolaeth ysgrifenedig y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r Ymchwiliad i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion

Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r Ymchwiliad i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion.

### Ymateb John Griffiths AC, y Cwnsel Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol i lythyr y Cadeirydd ynghylch CA390 - Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2010

Nododd y Pwyllgor ymateb John Griffiths AC, y Cwnsel Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol i lythyr y Cadeirydd ynghylch CA390 - Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2010.

### Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) – gwybodaeth ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Nododd y Pwyllgor ragor o wybodaeth am ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli sy'n egluro darpariaethau yn y Mesur arfaethedig (ee, y Ddeddf Gallu Meddyliol) a nodyn am yr hyn a ddysgwyd yn ystod y broses o sicrhau'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Gofalwyr (yn enwedig o ran cael caniatâd gan Whitehall) ac am y cydweithio rhwng Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru. Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol a ddarparodd y wybodaeth ychwanegol.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**29 Ebrill 2010**